Ystyriaethau ar gyfer cynnal Etholiad Cyffredinol Senedd y DU ar 4 Gorffennaf 2024

Diben y canllawiau hyn

Diben y ddogfen hon yw eich cynorthwyo chi, fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a/neu Swyddog Cofrestru Etholiadol, drwy nodi rhai ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud â chydlynu a chynllunio'r etholiad yn eich ardal. Ni fwriedir i hwn fod yn ddadansoddiad cynhwysfawr o holl elfennau paratoi ar gyfer yr etholiad, ond yn hytrach mae'n rhoi trosolwg o rai meysydd y mae angen eu hystyried ar frys i'ch helpu i flaenoriaethu eich gweithgareddau.

Mae canllawiau manwl ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ar weinyddu etholiad Senedd y DU ym Mhrydain Fawr i'w gweld ar ein gwefan. Rydym hefyd wedi llunio amserlen etholiad sy'n nodi'r terfynau amser allweddol. Mae ein canllawiau craidd ar etholiadau yn ystod y canfas ar gael ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Cyd-destun Etholiad Cyffredinol Senedd y DU

Mae Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn ddigwyddiad etholiadol arwyddocaol ac, ar gyfer 4 Gorffennaf 2024, bydd yn cael ei gyflwyno eto o fewn amserlen gywasgedig. Fel y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mae gennych gyfrifoldeb personol i sicrhau bod yr etholiad yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac, o ganlyniad, bod profiad y pleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad yn un cadarnhaol.

Bydd Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn cael ei gynnal yn erbyn cyd-destun penodol:

- Hwn fydd Etholiad Cyffredinol cyntaf Senedd y DU i gael ei gynnal o dan newidiadau deddfwriaethol a gyflwynwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022, a thrwy gydol y ddogfen hon rydym wedi tynnu sylw at rai newidiadau i fod yn ymwybodol ohonynt lle bo hynny'n berthnasol – gan gynnwys yn benodol rheoli effaith newidiadau i geisiadau pleidleiswyr tramor a cheisiadau am bleidlais absennol.
- Mae ffiniau etholaethau newydd Senedd y DU yn dod i rym yn ystod Etholiad Cyffredinol Senedd y DU - bydd angen i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod etholiad Senedd y DU yn cael ei gynnal ar y ffiniau newydd a bod y dosbarthiadau pleidleisio a'r mannau pleidleisio yn adlewyrchu'r ffiniau diwygiedig hyn.
- Bydd ffiniau etholaethau newydd Senedd y DU yn cyflwyno ffiniau awdurdodau trawsleol newydd mewn rhai ardaloedd. Os ydych yn gyfrifol am etholaeth sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol, bydd goblygiadau ymarferol i hyn o ran rheoli prosesau allweddol a dylech adlewyrchu hyn yn eich trefniadau. Dylech gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, y Swyddog Canlyniadau llywodraeth leol a staff etholiadau perthnasol eraill o'r ardal(oedd) awdurdod lleol arall/eraill wrth ddatblygu a gweithredu eich cynlluniau. Mae ein canllawiau trawsffiniol yn rhoi gwybodaeth fanwl am ystyriaethau penodol ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gweinyddu Etholiad Cyffredinol Senedd y DU mewn etholaethau trawsffiniol.
- Bydd eich gwaith i ddarparu etholiadau a gynhelir yn dda yn dod o dan cryn archwiliad - gan bleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol, a'r cyfryngau. Bydd lefel y diddordeb yn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU yn sylweddol ac efallai y bydd gennych ymgeiswyr proffil uchel yn eich ardal a allai waethygu hyn. Bydd angen i chi fod yn barod

ar gyfer cynnydd yn nifer y ceisiadau i gofrestru i bleidleisio yn y cyfnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru (gall unrhyw ddadleuon ar y teledu achosi cynnydd mewn ceisiadau ac ymholiadau) ynghyd ag effaith y diwylliant newyddion 24 awr a dylanwad y cyfryngau cymdeithasol.

- Dylech gynllunio ar gyfer nifer uchel sy'n pleidleisio a meddwl am yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar eich cynlluniau o ran cyflawni, capasiti a gwydnwch, yn ogystal ag ar gyfer sicrhau diogelwch cyflawni'r etholiad, ac amseriad y cyfrif. Bydd angen i chi feddwl am sut y gallwch reoli disgwyliadau tra'n sicrhau y cyflwynir canlyniad cywir, gan ystyried y gofyniad cyfreithiol i gymryd camau rhesymol i ddechrau cyfrif pleidleisiau o fewn pedair awr i ddiwedd y cyfnod pleidleisio.

- Mae ystyriaethau penodol yn ymwneud â'r etholiad a gynhelir yn ystod y cyfnod canfasio blynyddol, ac yng Nghymru a Lloegr, y cyfnod ysgrifennu a drefnwyd ar gyfer Hawliau Pleidleisio Dinasyddion yr UE.

Ydych chi....?

Cynllunio

- Wedi sefydlu tîm prosiect? Bydd angen i chi nodi gyda phwy y bydd angen i chi weithio'n agos gan gynnwys Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a staff etholiadau perthnasol, gan ystyried:

    - Sut y byddwch yn rheoli etholaethau trawsffiniol, gan weithio'n agos gyda'r Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff priodol.

    - P'un a fyddwch yn gweinyddu'r etholiad(au) yn yr ardaloedd hynny sydd y tu allan i ardal eich awdurdod lleol, neu a fyddwch yn dibynnu ar y Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol perthnasol neu uwch swyddogion eraill yr awdurdod/awdurdodau lleol arall/eraill i wneud hyn ar eich rhan.

    - P'un a yw cyflawni eich swyddogaethau yn mynd i gael ei ddirprwyo'n ffurfiol ac os felly, pa rai. Sicrhewch eich bod yn dogfennu'r penderfyniadau a wnaed, gan lunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth lle bo'n briodol, gan nodi pwy fydd yn gyfrifol am ddarpariaeth ymarferol pa agweddau ar yr etholiad(au) a gynhelir.

- Wedi sefydlu cynllun? Dylai hyn gynnwys y camau gweithredu sydd angen eu cymryd, y risgiau i gynnal yr etholiad a'r mesurau lliniaru ar gyfer y rhain, a'r adnoddau sydd eu hangen , gan gynnwys:

    - Cynhyrchu cyllideb amcangyfrifedig. Gallwch ddod o hyd i Orchymyn Etholiadau Seneddol (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2024 yma. Bydd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn darparu canllawiau ffioedd a thaliadau cysylltiedig.

    - Os ydych yn Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn yr Alban, ystyried unrhyw gyngor ac argymhellion a wnaed gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol

    - Os ydych yn Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yng Nghymru, ystyriwch unrhyw gyngor a roddwyd gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (BCEC). Fel bob amser, bydd angen i chi ystyried unrhyw oblygiadau Cymraeg ar gyfer eich holl waith .

    - Ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau etholiadol diweddar, ac etholiadau blaenorol, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rhai a alwyd ar fyr rybudd, ac unrhyw

brofiad a gawsoch o reoli etholiadau a gynhaliwyd ers i newidiadau'r Ddeddf Etholiadau ddod i rym.

- Ystyried pa drefniadau wrth gefn y bydd angen i chi eu rhoi ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw fethiannau TG ac unrhyw fesurau diogelwch y bydd eu hangen arnoch i warchod rhag bygythiadau seiber.

- Wedi cytuno ar drefniadau ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad?

Staffio a hyfforddiant

- Wedi nodi gofynion staffio, gan gynnwys trefniadau recriwtio angenrheidiol? Dylech sicrhau eich bod yn:
  - Nodi a phenodi Dirprwyon (yn enwedig rhag ofn na allwch weithredu)
  - Cysylltwch â staff ar eich cronfa ddata o staff gorsafoedd pleidleisio a staff y cyfrif a ddefnyddiwyd mewn digwyddiadau etholiadol blaenorol.
  - Recriwtio staff gorsafoedd pleidleisio, gan gadw mewn cof y cymarebau a argymhellir a chyflawni gofynion newydd yn ymwneud ag ID Pleidleisiwr a thrin pleidleisiau post.
  - Nodi a phenodi staff ar gyfer prosesau etholiadol allweddol eraill.

- Wedi nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi staff?
  - Tîm gwasanaethau etholiadol – parhaol a dros dro.
  - Swyddogion llywyddu, clercod pleidleisio ac arolygwyr gorsafoedd pleidleisio.
  - Staff dosbarthu ac agor pleidleisiau post.
  - Staff dilysu a chyfrif.
- Wedi trafod gyda rheolwyr adrannol eraill o fewn eich awdurdod lleol neu'ch Cyd-fwrdd Prisio i weld a allant gynnig cymorth ychwanegol i'r tîm gwasanaethau etholiadol?
- Wedi ystyried y cynnydd posibl a chymhlethdod yr ymholiadau a ph'un a fydd ymholiadau'n cael eu trin gan ganolfan alwadau'r awdurdod lleol (os oes un) neu'n cael eu trin yn uniongyrchol gan y tîm gwasanaethau etholiadol, a sut y bydd ymholiadau mwy cymhleth yn cael eu huwchgyfeirio? Rydym wedi datblygu Cwestiynau Cyffredin ar gyfer staff rheng flaen y gellir eu defnyddio i helpu staff ymateb i ymholiadau cyffredin.
- Wedi ystyried a oes angen staff craidd neu staff dros dro ychwanegol arnoch i gynorthwyo gyda phrosesu ceisiadau i gofrestru i bleidleisio ar-lein ac ar bapur, ceisiadau ar gyfer pleidlais absennol a cheisiadau ar gyfer Tystysgrifau Awdurdod Pleidleisiwr a Dogfennau Etholwr Dienw, a sut y byddwch yn paratoi ar gyfer cynnydd yn y nifer o ceisiadau gan etholwyr tramor yn y cyfnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru? Bydd angen i chi roi trefniadau ar waith i ymdrin ag unrhyw dystiolaeth ddogfennol, yn enwedig yn agos at derfynau amser. Bydd hyn yn arbennig o bwysig lle gall prosesau lluosog gyrraedd uchafbwynt ar yr un pryd.
- Wedi nodi pryd y bydd angen hyfforddi gwahanol staff a sut y byddwch yn eu cefnogi wrth symud ymlaen? Dylech wneud y canlynol:
  - Diweddaru Cwestiynau Cyffredin, cyfarwyddiadau prosesu a nodiadau hyfforddi. Er enghraifft, i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol diweddar.
  - Darparu hyfforddiant penodol ar y gofynion ID Pleidleisiwr newydd, yn enwedig ar gyfer unrhyw staff sy'n cael eu defnyddio fel 'cyfarchwyr' i sicrhau eu bod yn ymwybodol mai dim ond gwybodaeth y gallant ei darparu, ni allant 'wirio' ID.
  - Darparu hyfforddiant ar drin pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u cwblhau yn swyddfeydd y cyngor ac mewn gorsafoedd pleidleisio, gan gynnwys llenwi ffurflenni cysylltiedig a chwblhau'r ffurflen Trin Pleidleisiau Post.

- Mewn ardaloedd trawsffiniol, penderfynwch pwy fydd yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant staff penodedig a sut y caiff hyfforddiant ei ddarparu ar draws yr etholaeth.

Cofrestru

- Wedi sefydlu'r ffiniau Seneddol newydd yn eich system feddalwedd a chyhoeddi'r gofrestr ddiwygiedig?
- Wedi ystyried effaith y newidiadau a wnaed gan unrhyw adolygiad dosbarth pleidleisio? Sut byddwch chi'n sicrhau eich bod yn cynnal gwiriadau prawfddarllen cadarn ar gardiau pleidleisio a chofrestrau gorsafoedd pleidleisio i sicrhau bod y newidiadau wedi'u rhoi ar waith a'u hadlewyrchu'n gywir?
- Wedi cytuno ar amseriad a dull y trosglwyddiadau data angenrheidiol amrywiol, os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, neu os ydych yn gyfrifol am etholaeth sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol? Dylech sicrhau eich bod mewn cysylltiad â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol (lle nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol) neu'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol cyfatebol mewn etholaeth drawsffiniol a'ch bod yn gallu derbyn y data cofrestru a'r data pleidleisio absennol perthnasol ar gyfer yr etholiadau. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein canllawiau ar Ystyriaethau ar gyfer Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gweinyddu etholiad Senedd y DU mewn etholaethau trawsffiniol:
- Wedi ystyried effaith yr etholiad ar broses yr Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd (os ydych yng Nghymru neu Loegr)?

    - Os ydych yn Swyddog Cofrestru Etholiadol yng Nghymru neu Loegr mae'n rhaid eich bod wedi adolygu holl ddinasyddion yr UE a oedd wedi'u cofrestru o dan yr hen feini prawf a gwneud penderfyniad ynghylch eu cymhwysedd o dan y meini prawf newydd erbyn diwedd 31 Ionawr 2025.

    - O ystyried amseriad yr etholiad bydd angen i chi ystyried pa adnoddau sydd ar gael i chi i gynnal y broses Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd a'r ffordd orau o'u defnyddio. Gan fod gennych tan 31 Ionawr 2025 i gwblhau'r adolygiad hwn, gallai penderfynu gohirio dechrau'r broses adolygu tan ar ôl yr etholiad sicrhau y gallwch chi a'ch tîm ganolbwyntio yn lle hynny ar facsimeiddio cofrestru etholiadol cyn yr etholiad, a chefnogi'r gwaith o gynnal yr etholiad yn llwyddiannus.

    - Os ydych yn bwriadu cynnal unrhyw weithgarwch Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd cyn neu yn ystod yr etholiad, bydd angen i chi sicrhau bod eich negeseuon i ddinasyddion yr UE yn glir, gan ystyried lefel diddordeb y cyhoedd mewn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU a'r posibilrwydd o ddryswch i'r rheini sy'n derbyn llythyrau ynghylch hawliau etholiadol yn ystod y cyfnod ymgyrchu.
- Wedi ystyried effaith yr etholiad ar amseriad eich canfasiad blynyddol? Mae amseriad yr etholiad yn debygol o olygu y bydd eich gweithgarwch canfasio blynyddol yn cael ei ohirio. Dylech, fodd bynnag, wneud y canlynol:

    - Meddyliwch am y ffordd orau i ddefnyddio'ch adnoddau i dargedu unrhyw ddarpar etholwyr newydd nad ydynt wedi cofrestru eto , fel bod cymaint o etholwyr cymwys â phosibl wedi'u cofrestru mewn pryd ar gyfer yr etholiad.

    - Meddyliwch am ba negeseuon ychwanegol ar y dyddiad cau ar gyfer cofrestru a'r dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau pleidleisio absennol ar gyfer yr etholiad y gallwch eu cynnwys gydag unrhyw Wahoddiadau i Gofrestru a gyhoeddir er mwyn sicrhau bod etholwyr posibl yn ymwybodol o'r dyddiad hwn.

- Cofiwch nad oes angen cwblhau eich holl weithgarwch canfasio erbyn 1 Chwefror, neu 1 Rhagfyr yn yr Alban, ni waeth pryd y byddwch yn cyhoeddi eich cofrestr ddiwygiedig; gellir nodi unrhyw gamau sydd heb eu cymryd fel rhan o'ch gweithgarwch cofrestru etholiadol trwy gydol y flwyddyn. Mae canllawiau pellach ar y meysydd y bydd angen i chi eu hystyried a'r penderfyniadau y bydd angen i chi eu gwneud mewn perthynas â chyflawni'r canfasiad a rheoli cofrestriadau ar gyfer etholiad a gynhelir yn ystod y cyfnod canfasio ar gael i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

- Wedi meddwl am sut y byddwch yn rheoli ceisiadau cofrestru gan etholwyr tramor oherwydd newid deddfwriaethol diweddar? Mae'n rhaid i chi wirio bod yr ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cofrestru ar gyfer etholwyr tramor ac mae'n rhaid i chi wirio hunaniaeth yr ymgeisydd. Mae'n debygol y bydd achosion lle bydd angen i chi ofyn am ragor o wybodaeth gan ymgeiswyr, gan gynyddu eich llwyth gwaith. Ceir rhagor o wybodaeth am y rheolau newydd i etholwyr tramor yn ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Cardiau pleidleisio

- Wedi cytuno ar gynlluniau ar gyfer anfon cardiau pleidleisio?

  - Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi anfon cardiau pleidleisio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad.

  - Bydd angen i chi weithio gyda'ch cyflenwyr gwasanaethau argraffu a phost i sicrhau y gall etholwyr dderbyn eu cerdyn pleidleisio cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

Gorsafoedd pleidleisio, y cyfrif a lleoliadau eraill

- Wedi nodi ac archebu lleoliadau ar gyfer eich gorsafoedd pleidleisio, sesiynau anfon ac agor pleidleisiau post, a'r dilysu a'r cyfrif?
- Wedi ystyried lleoliadau eraill pe na fyddai eich lleoliadau arferol ar gael ar fyr rybudd neu oherwydd digwyddiadau eraill, er enghraifft , arholiadau sydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Mehefin a mis Gorffennaf? Bydd angen i chi sefydlu cynllun wrth gefn os collir lleoliadau yn ystod cyfnod yr etholiad neu ar y diwrnod pleidleisio. Pa brosesau sydd angen i chi eu dilyn os oes angen newid man pleidleisio?
- Wedi sicrhau bod lleoliadau, yn enwedig os ydynt yn ddewisiadau amgen i'ch lleoliadau arferol, yn hygyrch i etholwyr a mynychwyr eraill sydd ag ystod o anghenion gwahanol? Rydym wedi cynhyrchu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau ar Gymorth gyda phleidleisio i bleidleiswyr anabl a fydd yn eich cefnogi wrth ystyried anghenion pleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio a gwneud addasiadau rhesymol. Sylwch fod yn rhaid i chi ystyried y canllawiau penodol ar offer i'w darparu mewn gorsafoedd pleidleisio.

Cyflenwyr

- Wedi nodi unrhyw broblemau gyda'r cyflenwyr a allai fod wedi codi mewn etholiadau diweddar (er enghraifft, unrhyw etholiadau y gallech fod wedi'u cynnal ym mis Mai 2023 neu fis Mai 2024) ac wedi lliniaru yn erbyn y rhain ?
- Wedi cysylltu â'ch cyflenwyr neu'ch timau mewnol perthnasol i sefydlu eu gallu i gyflawni'r hyn sydd ei angen?
- Wedi cytuno ar ddyddiadau ar gyfer cyfnewid data ac ar gyfer darparu gwasanaethau argraffu/dosbarthu ?

- Wedi cytuno ar fecanweithiau prawfddarllen ar gyfer deunyddiau pleidleiswyr?
- Wedi cynnal trafodaethau gyda'r Post Brenhinol am unrhyw drefniadau ac amseriadau mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post i helpu i facsimeiddio'r amser sydd ar gael i bleidleiswyr post dderbyn, cwblhau a dychwelyd eu pleidlais bost, yn enwedig mewn perthynas ag etholwyr tramor?

Cyfathrebu ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

- Wedi penderfynu sut y byddwch yn cyfathrebu â:
  - Pleidleiswyr? Gofynnwch am gyngor gan staff perthnasol yn eich awdurdod lleol a nodwch ddulliau priodol o gyfleu gwybodaeth allweddol, gan gynnwys gwybodaeth am gofrestru, terfynau amser ar gyfer pleidleisiau absennol a'r angen i ddangos ID ffotograffig i bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio.
    - Mae'r Comisiwn yn cynnal fersiwn wedi'i diweddaru o'r ymgyrch cofrestru pleidleiswyr ledled y DU, a lansiwyd am y tro cyntaf cyn yr etholiadau diweddar ym mis Mai 2024 yng Nghymru a Lloegr. Bydd hysbysebu yn rhedeg ar draws y teledu, fideo ar-alw, print, awyr agored, radio, cymdeithasol, sain digidol ac ar-lein a bydd yn rhedeg tan y dyddiad cau ar gyfer cofrestru ar 18 Mehefin.
    - Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnal ein hymgyrch ID Pleidleisiwr ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, i godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad i bleidleiswyr ddod ag ID ffotograffig i'r orsaf bleidleisio wrth bleidleisio'n bersonol ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU. Bydd cam cyntaf yr ymgyrch, a fydd yn rhedeg hyd at y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, hefyd yn pwysleisio'r opsiwn o wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr am ddim, neu 'ID Pleidleisiwr'. Fel gyda'n hymgyrch gofrestru, byddwn yn hysbysebu ar draws y cyfryngau torfol a sianeli digidol wedi'u targedu.
  - Pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr ac asiantiaid? Cynhwyswch y rhai sy'n newydd neu'n ddibrofiad – nodwch ba wybodaeth fydd angen ei darparu a sut y byddwch yn hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael, yn sefydlu sesiynau briffio ac yn annog presenoldeb.
  - Y cyfryngau? Gwnewch drefniadau ar gyfer eu presenoldeb yn y cyfrif a sut y byddwch yn delio ag ymholiadau gan y cyfryngau.

Ymgeiswyr ac asiantiaid

- Wedi meddwl sut y byddwch yn cefnogi darpar ymgeiswyr i gwblhau eu papurau enwebu yn gywir? Efallai y bydd ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau gwleidyddol newydd neu lai profiadol sy'n anghyfarwydd ag arferion a phrosesau sefyll etholiad ac y bydd angen eich cefnogaeth arnynt i allu cymryd rhan yn effeithiol. Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn cynnig gwiriadau anffurfiol i bob ymgeisydd lle bo modd.

- Wedi penderfynu beth ddylai eich sesiynau briffio ei gynnwys? Dylent gynnwys gwybodaeth am drefniadau ac amseriadau lleol, ar gyfer anfon ac agor pleidleisiau post, y diwrnod pleidleisio a'r dilysu a'r cyfrif – ar y cyd â Swyddogion Canlyniadau perthnasol eraill lle bo angen.

- Wedi darparu'r cyngor diogelwch diweddaraf i ymgeiswyr ac asiantiaid? Mae Llywodraeth y DU wedi cynhyrchu canllawiau diogelwch ychwanegol ar gyfer etholiadau, gan gynnwys canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid, y dylech gyfeirio ymgeiswyr a'u hasiantiaid atynt.

Uniondeb a diogelwch

- Wedi ystyried, ar y cyd â'ch Pwynt Cyswllt Unigol, unrhyw risgiau penodol sy'n ymwneud â'ch etholaeth a sut y gellir eu lliniaru?
- Wedi ystyried trefniadau diogelwch fel rhan o'ch cynlluniau wrth gefn? Mae ein canllawiau craidd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am risgiau diogelwch y dylech eu hystyried. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cynhyrchu canllawiau diogelwch ar gyfer etholiadau sy'n cynnwys dolenni pellach i ganllawiau penodol ar seiberddiogelwch a diogelwch etholiadau ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif.
- Wedi cytuno sut y byddwch yn delio ag unrhyw broblemau sy'n codi o ran cywirdeb yr etholiad?
- Wedi cytuno sut y byddwch yn cyfathrebu eich dull o gynnal uniondeb etholiadol?
- Wedi rhoi gwybod i'r Pwynt Cyswllt Unigol am unrhyw newidiadau i fannau pleidleisio a lleoliadau cyfrif o ganlyniad i adolygiad trawsetholaethol neu fannau pleidleisio a dosbarthiadau?

Pleidleisio absennol

- Wedi ystyried sut y byddwch yn paratoi ar gyfer cynnydd yn nifer y ceisiadau am bleidlais absennol o'r DU a thramor yn y cyfnod cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru ?
- Wedi ystyried sut y byddwch yn rheoli cynnydd mewn ceisiadau am bleidlais absennol gan etholwyr tramor yn sgil y newidiadau deddfwriaethol diweddar? Bydd angen i chi weithio gydag etholwyr tramor i gefnogi eu cyfranogiad yn yr etholiad gan gynnwys darparu cyngor ar opsiynau pleidlais absennol.
- Wedi sefydlu'r pwynt ymarferol diweddaraf ar gyfer penderfynu ar geisiadau am bleidlais bost cyn yr etholiad er mwyn sicrhau y gallwch gyflawni eich dyletswyddau'n effeithiol? Argymhellwn na ddylai unrhyw derfyn amser ar gyfer penderfynu y byddwch yn ei osod fod yn gynharach na 5pm, chwe diwrnod gwaith cyn yr etholiad er mwyn eich galluogi i fodloni eich rhwymedigaeth i sicrhau bod y rhestrau o bleidleiswyr absennol ar gael i'w harchwilio cyn gynted ag y bo'n ymarferol.
- Wedi cytuno ar gynlluniau ac amseroedd ar gyfer anfon pleidleisiau post? Gan gymryd i ystyriaeth:
    - unrhyw faterion trawsffiniol gan gynnwys –
        - Cysylltu â'r Swyddog(ion) Cofrestru Etholiadol i gael y data sydd ei angen arnoch - gan sicrhau bod prawf o'r broses yn cael ei gynnal cyn y trosglwyddiad gyntaf a drefnwyd, gan sefydlu a yw eich system feddalwedd yn gallu darllen y data a ddarparwyd gan yr awdurdod arall/awdurdodau eraill yn gywir a'ch bod yn gallu anfon y data at argraffwyr.
        - Cytuno ar sut y byddwch yn cydlynu'r broses o benderfynu ar becynnau post a'u hanfon wedyn. Bydd sicrhau llinellau cyfathrebu clir yn arbennig o bwysig ar gyfer etholaethau trawsffiniol lle byddwch naill ai'n ildio neu'n cyflogi etholwyr o awdurdodau lleol eraill.
        - Penderfynu sut y bydd unrhyw geisiadau am newidiadau i drefniadau pleidleisio absennol yn cael eu cyfnewid (gan gynnwys ychwanegiadau at y rhestr o ddirprwyon sy'n deillio o ganiatáu ceisiadau am ddirprwy brys a mynd i'r afael ag ailgyhoeddi pleidleisiau post oherwydd pleidleisiau a gollwyd ac a ddifethwyd)

- sut i flaenoriaethu anfon pleidleisiau post tramor i wneud y mwyaf o'r amser sydd gan bleidleiswyr post tramor i gwblhau a dychwelyd eu pleidlais.

- Wedi meddwl sut y byddwch yn rheoli'r broses hysbysiad gwrthod dynodwr pleidlais bost - os oeddech wedi cynnal etholiadau ym mis Mai 2024 - i sicrhau nad yw unrhyw gamgymeriad a arweiniodd at wrthod ym mis Mai yn cael ei ailadrodd ym mis Gorffennaf? Bydd angen i chi ystyried yr amser y bydd ei angen i baratoi ar gyfer anfon yr hysbysiadau, y gofynion deddfwriaethol ynghylch yr amseriad ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau atgoffa a chanslo trefniadau pleidleisiau post, a'r amseriad ar gyfer dosbarthu pleidleisiau post ar gyfer yr etholiad. ym mis Gorffennaf. Os byddwch yn anfon yr hysbysiadau cyn Etholiad Cyffredinol Senedd y DU, bydd angen i chi sicrhau bod y rhestr o ddynodwyr pleidlais absennol yn cael ei diweddaru'n brydlon pan dderbynnir llofnodion newydd a bod yr wybodaeth hon yn cael ei darparu mewn modd amserol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) perthnasol.

- Wedi cytuno ar gynlluniau ar gyfer sesiynau agor pleidleisiau post? Gan gymryd i ystyriaeth:

    - Unrhyw drefniadau trawsffiniol angenrheidiol ar gyfer dilysu dynodwyr ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd ar draws yr etholaeth.
    - Trefniadau ar gyfer gwirio dynodwyr personol ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd a dderbyniwyd ar y diwrnod pleidleisio ar draws yr etholaeth, gan gynnwys sut y gellir eu dosbarthu'n amserol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio a heb unrhyw oedi i'r dilysu a'r cyfrif

- Wedi cysylltu â'r Post Brenhinol i gadarnhau'r trefniadau ar gyfer dychwelyd pleidleisiau post ac unrhyw archwiliadau terfynol i'w cynnal ar y diwrnod pleidleisio?
- Wedi cynllunio ar gyfer sut y byddwch yn ymdrin â phleidleisiau post sy'n cael eu cyflwyno yn swyddfeydd y cyngor neu eu postio i flychau llythyrau swyddfeydd y cyngor, gan gynnwys o bosibl yn hwyr yn y dydd ar y diwrnod pleidleisio? Gan feddwl am:
    - pa adeiladau y cyngor a allai gael eu heffeithio gan y newid hwn.
    - pa brosesau fydd gennych ar waith i sicrhau na fydd neb yn gallu cyflwyno pecyn post heb lenwi'r ffurflen briodol.
    - sut y byddwch yn sicrhau bod trywydd archwilio clir.

Rheoli'r cyfrif

- Wedi cytuno ar gynlluniau ar gyfer y dilysu a'r cyfrif (h.y. ble a phryd)?

- Wedi ystyried trefniadau diogelwch ar gyfer y cyfrif? Mae Llywodraeth y DU wedi cynhyrchu canllawiau diogelwch penodol ar reoli diogelwch mewn lleoliadau cyfrif y dylech eu hadolygu a'u hymgorffori fel rhan o'ch cynllunio.

- Wedi ystyried sut y byddwch yn bodloni gofynion deddfwriaethol i wneud trefniadau ar gyfer dilysu a chyfrif pleidleisiau Etholiad Cyffredinol Senedd y DU cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio? Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi bod yn rhaid i chi gymryd camau rhesymol i ddechrau cyfrif y pleidleisiau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ac o fewn pedair awr i ddiwedd y cyfnod pleidleisio. Mae'r ddyletswydd hon yn ymwneud â chyfrif gwirioneddol y pleidleisiau ac nid â'r broses ddilysu.

- Wedi gwneud trefniadau digonol ar gyfer presenoldeb y cyfryngau yn y cyfrif? Dylech gynnwys gwagle a chyfle i'r cyfryngau adrodd ar ganlyniad yr etholiad, ond rhaid i chi sicrhau nad yw cynrychiolwyr y cyfryngau yn ymyrryd â'r broses nac yn peryglu

cyfrinachedd y bleidlais. Mae ein canllawiau craidd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am reoli'r cyfryngau.

Prosesau ar ôl yr etholiad

- Wedi cynllunio ar gyfer gweithgareddau y mae angen i chi eu cyflawni ar ôl datgan y canlyniad? Gan gynnwys:
  - Y gofyniad i anfon llythyrau gwrthod pan fydd rhywun yn cyflwyno pleidleisiau post nad ydynt yn cyd-fynd â'r rheolau newydd, yn ogystal ag at y rhai y gwrthodwyd eu pleidleisiau post . Bydd angen i chi ystyried yr effaith ar adnoddau o ganlyniad i'r gofyniad hwn – a fydd angen i chi gael staff ychwanegol i gyflawni'r broses a delio ag ymholiadau?
  - Gofynion casglu data ar ôl yr etholiad. Ar gyfer Etholiad Cyffredinol Senedd y DU mae'n ofynnol i chi gasglu data mewn gorsafoedd pleidleisio sy'n ymwneud â gweithredu'r mesurau ID pleidleisiwr.
  - Storio a chadw dogfennau. Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) bydd angen i chi gysylltu â Swyddog Cofrestru Etholiadol yr awdurdod lleol sydd â'r nifer uchaf o etholwyr cofrestredig yn yr etholaeth gan mai nhw fydd y 'Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol' y bydd angen anfon holl ddogfennau'r etholiad atynt.
  - Rheoli'r broses o dderbyn ffurflenni gwariant a datganiadau ymgeiswyr, cyhoeddi'r arolygiad o'r ffurflenni hynny ac ymateb i unrhyw gais/ceisiadau cyflenwi, gan gynnwys eu cyflwyno i'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer gwiriadau cydymffurfio.
  - Coladu a dadansoddi adborth ar gynnal yr etholiad ac unrhyw gwynion a dderbyniwyd.